Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL

# 1999 Rhif 3451 (Cy.49)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro fel Ymddiriedolaeth NHS o dan adran 5 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, fel y'i diwygiwyd, yn benodol, gan Ddeddf Iechyd 1999.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am y gwasanaethau a reolwyd gynt gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymunedol Caerdydd a'r Cylch. Darperir ar gyfer diddymu'r ddwy ohonynt, o 1 Ebrill 2000 ymlaen, gan Orchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)(Diddymu Rhif 2) 1999.

Mae'r Gorchymyn Sefydlu yn darparu ar gyfer enw'r Ymddiredolaeth (erthygl 2); swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth (erthygl 3); ar gyfer nifer y cyfarwyddwyr anweithredol, y mae un ohonynt i'w benodi o Brifysgol Cymru i adlewyrchu ymrwymiad addysgu sylweddol yr Ymddiriedolaeth, a nifer y cyfarwyddwyr gweithredol (erthygl 4); ar gyfer y dyddiad (1 Ebrill 2000) pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn llwyr weithredol ac ar gyfer ei dyddiad cyfrifo (erthygl 5); ar gyfer cyflawni swyddogaethau cyn y dyddiad gweithredol (erthygl 6); ac ar gyfer atebolrwydd dros dreuliau'r Ymddiriedolaeth a'r dyledion eraill yr eir iddynt rhwng dyddiad ei sefydlu a'r dyddiad pan fydd yn ysgwyddo ei holl swyddogaethau (erthygl 7).

National Assembly for Wales

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1999 No. 3451 (W.49)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Cardiff and Vale National Health Service Trust Establishment Order 1999

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order establishes the Cardiff and Vale National Health Service Trust as an NHS Trust under section 5 of the National Health Service and Community Care Act 1990, as amended, in particular, by the Health Act 1999.

The Trust is responsible for the services previously managed by the University Hospital of Wales and Llandough Hospital National Health Service Trust and the Cardiff and District Community National Health Service Trust. Provision for their dissolution, with effect from 1st April 2000, is made by the National Health Service Trusts (Wales) (Dissolution No. 2) Order 1999.

The Establishment Order provides for the name of the Trust (article 2); for the functions of the Trust (article 3); for the number of non-executive directors, one of whom is to be appointed from the University of Wales to reflect the Trust's significant teaching commitment, and for the number of executive directors (article 4); for the date (1st April 2000) from which the Trust will be fully operational and for its accounting date (article 5); for the carrying out of functions before the operational date (article 6); and for liability for the Trust's expenses and other liabilities incurred between the date of its establishment and the date on which it assumes all its functions (article 7).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 1999 Rhif 3451 (Cy.49)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *15 Rhagfyr 1999* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 5(1) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990**(a)** a pharagraffau 1,3,4 a 5 o Atodlen 2 iddi, adran 25(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**(b)** a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(c)**, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 5(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990**(ch)** :

**Enwi cychwyn a dehongli**

**1.** —(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999 a daw i rym ar 1 Ionawr 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 *("the Act")*;

ystyr "dyddiad gweithredol" yw'r dyddiad y mae'r ymddiriedolaeth i fod i ddechrau ymgymryd â'r

(a) 1990 p.19; diwygiwyd adran 5(1) a pharagraff 3(2) o Atodlen 2 gan adran 13(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"); enwir paragraff 1 o Atodlen 2 ar gyfer dehongli cyfeiriadau at "an order" o dan adran 5(1); diwygiwyd paragraffau 3, 4 a 5 gan baragraff 85 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995").

(b) 1993 p.38.

(c) Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 5 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, ac Atodlen 2 iddi, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(ch) Disodlwyd adran 5(2) gan baragraff 69 o Atodlen 1 i Ddeddf 1995.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1999 No. 3451 (W.49)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Cardiff and Vale National Health Service Trust Establishment Order 1999

| | |
|---|---|
| *Made* | *15 December 1999* |
| *Coming into force* | *1 January 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State for Wales by section 5(1) of and paragraphs 1, 3, 4 and 5 of Schedule 2 to the National Health Service and Community Care Act 1990**(a)** , section 25(2) of the Welsh Language Act 1993**(b)** and of all other powers enabling the Secretary of State in that behalf and now vested in the National Assembly for Wales**(c)**, after completion of the consultation prescribed under section 5(2) of the National Health Service and Community Care Act 1990**(d)** :

**Citation, commencement and interpretation**

**1.** —(1) This Order may be cited as the Cardiff and Vale National Health Service Trust Establishment Order 1999 and shall come into force on 1 January 2000.

(2) In this Order —

"the Act" means the National Health Service and Community Care Act 1990 *("y Ddeddf")*;

"establishment date" means 1st January 2000 *("dyddiad sefydlu")*;

(a) 1990 c.19; section 5(1) and paragraph 3(2) of Schedule 2 were amended by section 13(1) of the Health Act 1999 (c. 8) ("the 1999 Act"); paragraph 1 of Schedule 2 is cited for the interpretation of references to "an order" under section 5(1); paragraphs 3, 4 and 5 were amended by paragraph 85 of Schedule 1 to the Health Authorities Act 1995 (c.17) ("the 1995 Act")

(b) 1993 c.38.

(c) The functions of the Secretary of State for Wales under section 5 of, and Schedule 2 to, the National Health Service and Community Care Act 1990 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); the amendments to section 5 and Schedule 2 made by the 1999 Act have effect as if made by an Order in Council under section 22 of the Government of Wales Act 1998 (c.38).

(d) Section 5(2) was substituted by paragraph 69 of Schedule 1 to the 1995 Act.

cyfan o'r swyddogaethau a drosglwyddid iddi *("operational date")*;

ystyr "dyddiad sefydlu" yw 1 Ionawr 2000 *("establishment date")*;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn *("the trust")*.

"operational date" means the date on which the trust is to begin to undertake the whole of the functions conferred on it. *("dyddiad gweithredol")*;

"the trust" means the Cardiff and Vale National Health Service Trust established by article 2 of this Order *("yr ymddiriedolaeth")*.

**Sefydlu'r ymddiriedolaeth**

**2.** Sefydlir drwy hyn Ymddiriedolaeth NHS a elwir Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro neu Cardiff and Vale National Health Service Trust.

**Establishment of the trust**

**2.** There is hereby established an NHS Trust which shall be called Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro or Cardiff and Vale National Health Service Trust.

**Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth**

**3.** —(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y dibenion a bennir yn adran 5(1) o'r Ddeddf.

(2) Darparu nwyddau a gwasanaethau er diben y gwasanaeth iechyd o'r ysbytai a bennir ym mharagraff (3) neu o ysbytai a thir ac adeiladau cysylltiol fydd swyddogaethau'r ymddiriedolaeth.

(3) Dyma'r ysbytai a bennir er diben paragraff (2) —

i) Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4WZ;

ii) Ysbyty Llandoche, Llandoche, Penarth, CF64 2XX;

iii) Ysbyty'r Eglwys Newydd, Park Road, Caerdydd, CF14 7XB;

iv) Ysbyty Royal Hamadryad, Hunter Street, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5UQ; a

v) Yr Ysbyty a'r Ysgol Ddeintyddol, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW.

**Nature and functions of the trust**

**3.** —(1) The trust is established for the purposes specified in section 5(1) of the Act.

(2) The trust's functions shall be to provide goods and services for the purposes of the health service from the hospitals specified in paragraph (3) or from associated hospitals and premises.

(3) The hospitals specified for the purposes of paragraph (2) are —

i) University Hospital of Wales, Heath Park, Cardiff, CF14 4WZ;

ii) Llandough Hospital, Llandough, Penarth, CF64 2XX;

iii) Whitchurch Hospital, Park Road, Cardiff, CF14 7XB;

iv) Royal Hamadryad Hospital, Hunter Street, Cardiff Bay, Cardiff, CF10 5UQ; and

v) Dental Hospital and School, Heath Park, Cardiff, CF14 4XW.

**Cyfarwyddwyr yr ymddiriedolaeth**

4. —(1) Yn ychwanegol at y cadeirydd, bydd gan yr ymddiriedolaeth 7 cyfarwyddwr anweithredol a 5 o gyfarwyddwyr gweithredol.

(2) Gan y bydd yr ymddiriedolaeth yn cael ei hystyried fel un a chanddi ymrwymiad addysgu sylweddol o fewn ystyr y paragraff 3(1)(d) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, penodir un o'r cyfarwyddwyr anweithredol o Brifysgol Cymru.

**Directors of the trust**

**4.** —(1) The trust shall have, in addition to the chairman, 7 non-executive directors and 5 executive directors.

(2) Since the trust is to be regarded as having a significant teaching commitment within the meaning of paragraph 3(1)(d) of Schedule 2 to the Act, one of the non-executive directors shall be appointed from the University of Wales.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifo'r ymddiriedolaeth**

**5.** —(1) 1 Ebrill 2000 fydd dyddiad gweithredol yr ymddiriedolaeth.

(2) 31 Mawrth fydd dyddiad cyfrifo'r ymddiriedolaeth.

**Operational date and accounting date of the trust**

**5.** —(1) The operational date of the trust shall be 1st April 2000.

(2) The accounting date of the trust shall be 31st March.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol**

**6.** Rhwng ei dyddiad sefydlu a'i dyddiad gweithredol bydd gan yr ymddiriedolaeth y swyddogaethau canlynol —

(a) gwneud contractau NHS;

(b) gwneud contractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y pethau eraill sy'n rhesymol angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'i dyddiad gweithredol ymlaen.

**Cymorth gan awdurdodau iechyd cyn y dyddiad gweithredol**

**7.** —(1) Bydd Awdurdod Iechyd Bro Taf —

(a) yn trefnu bod y staff a'r cyfleusterau hynny y mae eu hangen i alluogi'r ymddiriedolaeth i gyflawni ei swyddogaethau cyfyngedig ar gael i'r ymddiriedolaeth tan y dyddiad gweithredol hyd nes bod staff yn cael eu trosglwyddo neu eu penodi i'r ymddiriedolaeth neu ganddi a bod cyfleusterau yn cael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth;

(b) yn trefnu bod yr adeiladau hynny y bydd eu hangen ar gael i alluogi'r ymddiriedolaeth i gyflawni ei swyddogaethau cyfyngedig tra'n aros i'r adeiladau hynny gael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth.

(2) Bydd Awdurdod Iechyd Bro Taf yn talu dyledion yr ymddiriedolaeth, y bydd wedi mynd iddynt rhwng y dyddiad sefydlu a'r dyddiad gweithredol, ac sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad a nodir ym mharagraff (3) o'r erthygl hon.

(3) Mae'r dyledion y cyfeirir atynt yn y paragraff blaenorol fel a ganlyn-

(a) dyled am dâl a lwfansau teithio a lwfansau eraill y cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol yr ymddiriedolaeth;

(b) dyled am lwfansau teithio a lwfansau eraill aelodau'r pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r ymddiriedolaeth nad ydynt yn gyfarwyddwyr yr ymddiriedolaeth hefyd;

(c) dyled am dâl personau a gyflogir gan yr ymddiriedolaeth; ac

(ch) unrhyw ddyled arall y gellid yn rhesymol fynd iddi gan yr ymddiriedolaeth er mwyn ei galluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

**Limited functions before operational date**

**6.** Between its establishment date and its operational date the trust shall have the functions —

(a) of entering into NHS contracts;

(b) of entering into other contracts including contracts of employment; and

(c) of doing such other things as are reasonably necessary to enable it to begin to operate satisfactorily with effect from its operational date.

**Assistance by health authorities before operational date**

**7.** —(1) Bro Taf Health Authority shall —

(a) until the operational date make such staff and facilities available to the trust as are required to enable the trust to carry out its limited functions pending the transfer or appointment of staff to or by the trust and the transfer of facilities to the trust;

(b) make available such premises as are required to enable the trust to carry out its limited functions pending the transfer of those premises to the trust.

(2) Bro Taf Health Authority shall discharge the liabilities of the trust, incurred between the establishment date and the operational date, that are of a description specified in paragraph (3) of this article.

(3) The liabilities referred to in the preceding paragraph are—

(a) liability for the remuneration and travelling or other allowances of the chairman and non-executive directors of the trust;

(b) liability for the travelling or other allowances of the members of committees and sub-committees of the trust who are not also directors of the trust;

(c) liability for the remuneration of persons employed by the trust; and

(d) any other liability which may reasonably be incurred by the trust for the purpose of enabling it to begin to operate satisfactorily with effect from the operational date.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.**(a)**

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998.**(a)**

15 Rhagfyr 1999

15th December 1999

*Dafydd Elis Thomas*

Y Llywydd

Presiding Officer

(a) 1998 p38

(a) 1998 c38

OFFERYNNAU STATUDOL

**1999 Rhif 3451 (Cy.49)**

**Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU**

Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999

STATUTORY INSTRUMENTS

**1999 No. 3451 (W.49)**

**NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES**

The Cardiff and Vale National Health Service Trust Establishment Order 1999

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan
The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth
Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau
Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090020-0

9 780110 900209

**£2.00**

WO6041 01/00 ON